



Street Ambassadors Llysgenhadon y Stryd

Ffordd newydd o
ddarparu gwasanaethau
cyhoeddus drwy
gydgynhyrchu



Mae Llysgenhadon y Street yn bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Carnegie DU, Ymddiriedolaeth Datblygu Creation, Time Banking Cymru a WCVA. Ei nod yw mynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lefel isel drwy greu rhwydwaith o lysgenhadon stryd gwirfoddol mewn cymunedau ledled Cymru.



Mae Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn gweithio i wella bywydau pobl ledled y DU ac lwerddon drwy newid meddyliau drwy ddylanwadu ar bolisi a thrwy newid bywydau drwy arferion arloesol a gwaith partneriaeth. Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth gan y dyngarwr o'r Alban-America Andrew Carnegie ym 1913.

Ymddiriedolaeth Carnegie y DU

Tŷ Andrew Carnegie
Stryd Pittencreeff, Dunfermline, KY12 8AW
Ffôn 01383 721445
www.carnegieuktrust.org.uk

Ymgorfforwyd drwy Siarter Frenhinol 1917.
Rhif elusen yr Alban SC 012799 yn gweithredu yn y DU a'r lwerddon



Sefydlwyd Time Banking Cymru ym 2008 i symud ymlaen cyflwyno cydymddibyniaeth i strwythurau gweithredu mudiadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae bancio amser yn sefydlu agenda cilyddol sy'n sicrhau sgwrs newydd am y ford y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu, yn cynhyrchu gwell canlyniadau ar gyfer unigolion, mudiadau a chymunedau. Ers 2008, rydym wedi adeiladu enw da cadarn yn gweithio gydag amrywiaeth o fudiadau, gan gynnwys ymddiriedolaethau datblygu, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau ieuencid a gwasanaethau gofal cymdeithasol, i wneud y gorau o'u potensial i ymgysylltu, cynnwys a grymuso dinasyddion a wasanaethir ganddynt.

Time Banking Cymru

Tŷ Aneurin Bevan, 40 Stryd y Castell, Tredegar, Blaenau Gwent, NP22 3DQ
Ffôn 01495 722799
info@timebankingwales.org.uk
www.timebankingwales.org.uk
Elusen gofrestredig rhif 1123697



Mae Ymddiriedolaeth Datblygu Creation yn gweithio ar faterion adfywio economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol. Cawsom ein sefydlu yn 2000, ac rydym yn fudiad annibynnol, nid er elw preifat, a reolir gan fwrdd ymddiriedolwyr. Mae Creation yn fudiad cymunedol, dan berchnogaeth a rheolaeth y gymuned, sy'n chwarae rôl weithgar mewn partneriaethau a chynghreiriau rhwng y gymuned, y sector gwirfoddol, y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae Creation yn gweithio gyda phobl leol i ddatblygu prosiectau cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at adfywiad yr ardal leol, yn hybu cyfle cyfartal, ac yn gwella iechyd a lles.

Ymddiriedolaeth Datblygu Creation

Neuadd y Gweithwyr Blaengarw, Blaengarw
Pen y Bont ar Ogwr, CF32 8AW
Ffôn 01656 871911
enquiries@creation.me.uk
www.creation.me.uk

Elusen gofrestredig rhif 1091527,
cwmni cyfyngedig drwy warant 3998232



WCVA yw'r mudiad ymbarél cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Am dros 75 o flynyddoedd rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i gryfhau cymunedau a newid bywydau.

WCVA – Prif Swyddfa

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk
Elusen gofrestredig rhif 218093,
cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Y darlun mawr

Mae diddordeb cynyddol a chytundeb ehangach y gellir gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymateb i newidiadau demograffig a heriau ariannol y presennol drwy ddull o'r enw cydgynhyrchu.

Mae cydgynhyrchu yn hybu perthynas agosach rhwng cyrff cyhoeddus a'r bobl er mwyn gallu datgloi ystod ehangach o adnoddau unigolion, cymunedau a'r llywodraeth – a gwneud defnydd llawnach o asedau, adnoddau a gwybodaeth ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae syniadau cydgynhyrchu ar y gweill ledled y Deyrnas Unedig. Yn y prospectws hwn mae Ymddiriedolaeth Datblygu Creation, Time Banking Cymru a WCVA yn awgrymu dull cydgynhyrchu a all ymgasglu pobl ar lefel sylfaenol iawn – lefel y stryd – i fod yn weithgar yn y materion a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ateb yr her – problemau gwrthgymdeithasol ac amgylcheddol

Gwyddem fod iechyd pobl a'u balchder yn eu cymuned, a'u parodrwydd i gyfranogi'n fwy ynddi, yn cael eu heffeithio gan ansawdd eu hamgylchedd.

Mae ymchwil gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU wedi dangos bod cydberthynas rhwng problemau amgylcheddol lefel isel neu weithredoedd anfoesgar megis graffiti, sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn â difaterwch, dadrithiad ac iselder yn y gymuned.

Mae ymchwil yr Ymddiriedolaeth hefyd yn dangos os gellir grymuso cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau lleol, gallai hyn fod yn ffordd o ddatgloi'r egni a'r arbenigedd sylweddol sydd heb eu cyffwrdd yn y gymuned, a defnyddio hyn mewn ystod o heriau cymdeithasol.

Wrth werthuso rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, canfuwyd bod yr hyn yr oedd pobl yn ei alw'n 'fân broblemau' yn atal cymunedau rhag gweithio gyda'i gilydd i ddelio gyda phroblemau cymdeithasol mwy difrifol. Unwaith cafodd y mân broblemau hyn eu datrys, roedd cymunedau mewn sefyllfa well o lawer i ddechrau ymgymryd â phrosiectau a heriau mwy.



Yr ateb – Llysgenhadon y Stryd Cymru

Rydym am ymgasglu pobl ar lefel y stryd er mwyn goresgyn problemau amgylcheddol lefel isel a chreu rhwydwaith o Lysgenhadon y Stryd mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Bwriadwn recriwtio Llysgenhadon y Stryd gwirfoddol i ganfod a chofrestru problemau amgylcheddol ar wefan sydd wedi hen ennill ei phlwyf gan ddarparu rhyngwyneb rhyngweithiol uniongyrchol gyda'r asiantaethau cyhoeddus sy'n delio gyda phroblemau gwrthgymdeithasol ac amgylcheddol lefel isel.

Trwy Lysgenhadon y Stryd, credwn y gall cyrff cyhoeddus a chymunedau fynd i'r afael â'r materion lleol canlynol, a dod o hyd i atebion mwy cynaliadwy iddynt.

- Cerbydau wedi'u gadael
- Parciau/tirluniau wedi'u diraddio
- Glanhau'r stryd
- Safleoedd bysiau wedi'u fandaleiddio
- Palmentydd/llwybrau cerdded
- Goleuadau stryd
- Parcio anghyfreithlon
- Tyllau yn y ffordd
- Plât enw'r stryd ar goll
- Baw ci
- Toiledau cyhoeddus budr
- Goleuadau traffig
- Gosod posterï'n anghyfreithlon
- Sbwriel ar ffyrdd/priffyrdd
- Coed
- Tipio anghyfreithlon
- Arwyddion traffig wedi'u difrod
- Graffiti
- Ysbwriel (gan gynnwys ailgylchu)



Yn garedig, oddi wrth Clean Glasgow

Gan wneud hyn, bydd perthynas gryfach yn cael ei ffurfio rhwng y gymuned a'r cyrff cyhoeddus, gellir darparu gwasanaethau yn fwy amserol a'u targedu'n well, a bydd y gymuned yn dechrau ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ganfod atebion i bryderon lleol.

Mae ymchwil yr Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn dangos bod lle mae cymuned leol yn gwybod bod cyd-breswylwyr wedi chwarae rhan wrth fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol lleol yna bydd y problemau hyn yn llai tebygol o ddigwydd yn y dyfodol. Byddwn yn adeiladu ymwybyddiaeth leol hon yn y dull Llysgenhadon y Stryd.

Un agwedd allweddol arall ar gynaliadwyedd y dull hwn yw y bydd Llysgenhadon y Stryd yn cael credydau amser am eu cyfraniad. Gellir defnyddio credydau amser i gael mynediad at wasanaethau hamdden, cymdeithasol neu addysgol lleol sydd ar gael drwy'r mudiadau sy'n rhan o'r cynllun ac asiantaethau eraill sy'n ei gefnogi. Gydag amser, gallai'r gymuned ddod i werthfawrogi'r gwasanaethau hynny yn fwy o ganlyniad i'r defnydd cynyddol ohonynt.

Sut y gallwn roi hyn ar waith

Mae Ymddiriedolaeth Datblygu Creation, Time Banking Cymru a WCVA wedi datblygu cysyniad Llysgenhadon y Stryd Cymru gan fwriadu sefydlu a chefnogi Llysgenhadon y Stryd mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad.




Gellir dod o hyd i ddarpar Lysgenhadon y Stryd drwy fudiadau cymunedol a'u rhwydweithiau. Yna gall gwirfoddolwyr ar gyfer y rôl gael eu cefnogi drwy ddiwrnod hyfforddi cychwynnol a'u mentora'n gyson gan y mudiadau a oedd yn rhan o sefydlu'r rhaglen.

Bydd Ymddiriedolaeth Datblygu Creation, Time Banking Cymru a WCVA yn darparu cymorth ac yn gweithio gyda'r holl asiantaethau lleol perthnasol er mwyn egluro a gweithredu'r model. Byddwn hefyd yn hwyluso cyfarfodydd ar y cyd ac yn darparu cymorth a hyfforddiant cyson yn lleol.

Rydym am helpu i greu rhwydweithiau o asiantaethau megis yr awdurdod lleol, gwasanaeth yr heddlu, cynghorau gwirfoddol sirol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac ymddiriedolaethau datblygu cymunedol i gydweithio a hyrwyddo'r cysyniad yn lleol.

O fewn y rhwydweithiau hyn, gall y mudiad sydd yn y safle gorau gymryd y rôl arweiniol yn sefydlu'r cysyniad yn yr ardal leol. Gall partneriaid yn y rhwydwaith gynnig cymorth, hyrwyddo'r cynllun, a phan fo'n briodol, cynnig credydau amser i Lysgenhadon y Stryd i gael mynediad at wasanaethau neu ddigwyddiadau hamdden ac addysgol.



Cydgynhyrchu ar waith yn y gymuned

Datblygodd y dull hwn o waith Ymddiriedolaeth Datblygu Creation ym Mlaengarw yn ennyn diddordeb y gymuned ac yn ei grymuso. Mae'r model hwn yn cynnig ffordd o ysgogi pobl i gymryd rhan yn yr ymdrech i wella'r ardal o'u cwmpas ac mae'n meithrin perthynas rhwng y dinesydd a'r gwasanaethau maent yn eu cael. Pe bai Llysgenhaddon y Stryd yn dymuno, gallent ddatblygu eu rôl i un sy'n ysgogi'r gymuned i weithredu ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol eraill. Gall y berthynas hon symbylu partneriaethau a all ddatblygu'n fentrau cydgynhyrchu pellach.



Yn garedig, oddi wrth Tipton Litter Watch

Y camau nesaf

Os oes gan eich mudiad ddiddordeb mewn archwilio'r syniad o Lysgenhadon y Stryd, neu mewn datblygu rhaglen yn lleol, neu i gael cymorth i greu rhwydwaith lleol er mwyn bwrw ymlaen â'r syniad, cysylltwch â Lein Gymorth Llysgenhaddon y Stryd drwy ffonio **0800 2888 329** neu anfon neges i **help@wcva.org.uk**.